PWYLLGOR PERSONNEL

11eg Hydref 2017

Yn Bresennol: Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd M Evans, Mrs R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd DGM James, Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12.40pm – 1.20pm)

1. Penodi Cadeirydd

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi'r Cynghorydd DGM James yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

2. Penodi Is Gadeirydd

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi'r Cynghorydd Mrs D Clements yn Is Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

3. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth Mrs G Hayward a'r Cynghorydd A Wilcox.

4. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fawrth 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fawrth 2015.

6. Fforwm Cyflogeion – Adroddiad y cyfarfod

Cyflwynwyd adroddiad y cyfarfod o'r Fforwm Cyflogeion a gynhaliwyd ar y 6ed o Fedi 2017 i'r Aelodau ei ystyried.

PENDERFYNWYD mabwysiadu adroddiad y cyfarfod o'r Fforwm Cyflogeion a gynhaliwyd ar y 6ed o Fedi 2017.

7. Eithrio'r cyhoedd

PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

8. Penodi Swyddog Monitro

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar ganlyniad yr ymarferiad recriwtio yn ddiweddar ar gyfer Swyddog Monitro yr Awdurdod.

Bu trafodaeth hir ar y gwahanol ddulliau y gallai'r Awdurdod eu cymryd i lenwi'r swydd, gan gynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol eraill, defnyddio ymgynghorwyr neu lenwi'r swydd o fewn yr Awdurdod ei hun.

PENDERFYNWYD cyfarwyddo'r Prif Weithredwr i gymryd y camau canlynol:

(a) ymchwilio i'r posibilrwydd bod y Swyddog Monitro cyfredol yn parhau yn ei swydd hyd nes y llwyddir i lenwi'r swydd;
(b) cysylltu ag awdurdodau lleol eraill gyda golwg ar sicrhau gwasanaethau eu Swyddog Monitro neu eu Dirprwy Swyddog Monitro hwy;
(c) cysylltu â'r rhai oedd wedi dangos diddordeb yn y lle cyntaf ond heb ddilyn y mater ymhellach, ac
(d) adolygu'r disgrifiad swydd a manyleb y swydd.